

Ysgol Uwchradd Bodedern



Polisi Addysg Rhyw a Pherthynas (**ARhPh**) i Rieni.

**I dderbyn copi llawn o'r polisi,
dylid cysylltu ag Ysgrifenyddes Yr Ysgol**

Adolygwyd:
Adolygwyd:
Adolygwyd:

Mehefin 2009
Tachwedd 2013
Mehefin 2017

Mabwysiadwyd:
Mabwysiadwyd:

Mehefin 2009
Rhagfyr 2013

Adolygir polisi a darpariaeth Addysg Rhyw a Pherthynas (**ARhPh**) yr ysgol fel rhan o ymrwymiad yr ysgol i:

- Cynllun Ysgol Iach,
- Fframwaith “Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru” (2008)
- “Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ysgolion” Medi 2010 (019/2010)
- Adran 403(1A) o Ddeddf Addysg 1996
- Adran 101(1)(c) o Ddeddf Addysg 2002
- Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol ar gyfer Cymru 2010-2015- Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r Polisi Addysg Rhyw a Pherthynas yn cael ei gynnal gan amrywiaeth o bolisiau'r ysgol a strwythurau cefnogaeth yn yr ysgol ee:

- Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Gwrth-fwlio
- Addysg Cyffuriau a chamddefnydd sylweddau
- Addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Cwricwlwm Cenedlaethol Gwyddoniaeth
- Polisi Ymateb i waith ac ymddygiad disgyblion
- Y Strwythur Bugeiliol
- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi amddiffyn plant
- Polisi Cytunedig Addysg Grefyddol CYSAG
- Rheolau Gwyddoniaeth Cwricwlwm Cenedlaethol
- Trefn y Cyngor Ysgol a Fforymau

Nodau a deilliannau rhaglen Addysg Rhyw a Pherthynas

Y gwerthoedd craidd sy'n sail i ARhPh yw:

- pwysigrwydd perthnasoedd sefydlog, cariadus
- cyd-barch
- hawliau
- cyfrifoldebau
- cydraddoldeb rhywiol
- derbyn amrywiaeth
- nid yw trais a gorfodaeth mewn perthnasoedd byth yn dderbyniol

drwy:

- feithrin agweddau a gwerthoedd cadarnhaol sy'n dylanwadu ar eu hymddygiad
- meithrin y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cyfrifol a deallus ynghylch iechyd a lles rhywiol
- ennyn hunan-barch a pharch tuag at eraill

- gwerthfawrogi amrywiaeth mewn cyfeiriadedd rhywiol a dathlu gwahaniaeth
- meithrin perthnasoedd llwyddiannus
- gwerthfawrogi pwysigrwydd perthnasoedd personol sefydlog a chariadus
- deall agweddau corfforol ac emosiynol rhyw, rhywioldeb ac iechyd a lles rhywiol
- deall y canlyniadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol
- cydnabod manteision gohirio gweithgarwch rhywiol
- deall cyfreithiau'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol
- gwybod sut i gael cyngor priodol am iechyd a lles rhywiol.

Cysylltiadau â phynciau eraill

Cwricwlwm Gwyddoniaeth

Cwricwlwm Addysg Grefyddol

- **Moesau a Gwerthoedd**

Mae Llywodraethwyr a Staff Ysgol Uwchradd Bodedern yn cefnogi'n hollol y datganiadau a amlinellir yn Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol 2008 ynghylch datblygiad moesol ac ysbrydol. Maent hefyd yn sylweddoli'r angen i'r holl athrawon a rhieni sy'n cyfrannu i'r rhaglen ARhaPh weithio o fewn fframwaith y gwerthoedd cytunedig a amlinellir yn y ddogfen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Mewn Ysgolion (LICC 019/2010) ac Adran 403 a 404 Deddf Addysg 1996.

- **Hawl rhieni/ gwarcheidwaid i eithrio'u plant**

Mae Adran 405 Deddf Addysg 1996 yn nodi'r hawl i rieni / gwarcheidwaid eithrio'i plant rhag dilyn Addysg Rhyw a Pherthynas -yn rhannol neu yn llwyr- ac eithrio elfennau sy'n rhan statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol. **Rhaid iddynt anfon cais ysgrifenedig i'r ysgol os ydynt am ddefnyddio'r hawl yma.** Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r cais. Bydd yr hawl hynny mewn lle nes bydd y dysgwr yn 19 oed.

- **Amddiffyn Plant a Chyfrinachedd**

Mae cyfrifoldeb holl aelodau staff y ddyletswydd i ddilyn gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru os bydd unrhyw amheuaeth fod plentyn neu berson ifanc yn debygol o fod wedi cael ei gam-drin neu'n wynebu risg o ddioddef niwed arwyddocaol. **Ni ddylai aelod o staff gytuno i gadw gwybodaeth o natur amddiffyn plentyn yn gyfrinach ond yn hytrach os bydd ganddo/i unrhyw bryder dylid dilyn ar unwaith Weithdrefnau Amddiffyn Plant.**

Os bydd disgybl yn gwneud datgeliad personol ni all athrawon / staff gynnig cyfrinachedd diamod. Mae gweithwyr iechyd yn gweithredu yn ôl Cod Ymarfer eu hunain a nodir mewn canllawiau'r adran iechyd bod gan bobl ifanc, gan gynnwys rhai o dan 16 , yr hawl i gyfrinachedd ac eithrio mewn achosion amddiffyn plant. Anogir disgyblion i siarad â'u rhieni / gofalwyr os yn bosibl.

Dylid sicrhau bod disgyblion yn gwybod ble i gael cyngor, cymorth a gwybodaeth gyfrinachol, er enghraifft, gwasanaethau iechyd rhywiol, y Siop Holi Iechyd, cynghorwr, meddyg teulu neu wasanaeth cynghori ar gyfer pobl ifanc.

(Tîm Amddiffyn Plant: Mrs Heather Roberts / Mrs Carys Rowlands / Mr Bryan Griffiths)

- **Gweithio mewn partneriaeth**

Mae'r ysgol yn edrych ar addysg Rhyw a Pherthynas fel cyfrifoldeb i'w rannu, a gall rhieni gael mynediad i'r Polisi, y rhaglen waith a'r adnoddau a ddefnyddir.

Mae'r ysgol yn sylweddoli gwerth cyfraniad asiantaethau allanol priodol, gweithwyr iechyd proffesiynol a siaradwyr gwadd i lwyddiant rhaglen ARhPh. Cynhelir gwasanaeth y Siop Holi Iechyd yn wythnosol.

Os daw asiantaethau allanol neu unigolion dieithr i gynnig eu gwasanaeth dylid gofyn yn gyntaf am gyngor arbenigwyr iechyd cyn eu derbyn.

- **Dull Cyflwyno / yr addysgu**

Defnyddir y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol fel sail i gynllunio'r ddarpariaeth ARhPh. Un o 5 thema ABCh sydd fwyaf perthnasol i ARhPh yw Iechyd a Lles Emosiynol.

Nod yr ysgol yw :

- Darparu amgylchedd dysgu cefnogol lle gellir cynnal trafodaethau agored ac anfeirniadol am berthnasoedd, rhyw, iechyd a lles rhywiol a rhywioldeb
- cynnig rhaglen drefnus gynlluniedig i ymdrin ag Addysg Rhyw a Pherthynas sy'n diwallu anghenion dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol

Cyflwynir gwersi gan diwtoriaid dosbarth a'r nyrs Ysgol (os yw ar gael) yng nghyfnod allweddol 3 a thîm o staff yng nghyfnod allweddol 4 a 5 mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Gwyddoniaeth ac Addysg Grefyddol, a'u hatgyfnerthu gan siaradwyr / asiantaethau allanol, Swyddog Jiws, Swyddog Cyswllt o'r Heddlu, mewnbyn traws cwricwlaidd a gweithgareddau all-gwricwlaidd e.e. Ffeiriau Iechyd.

Ni ddylai cred bersonol ac ymagweddiadau athrawon effeithio ar y modd y cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthynas. Bydd athrawon yn gosod rheolau sylfaenol a dylid annog disgyblion i barchu barn a ffordd o fyw pobl eraill. Rhaid i athrawon geisio ymdrin â chwestiynau o natur sensitif mewn modd yr un mor sensitif, didwyll a diwahaniaethol.

Bydd cyflwynwyr Addysg Rhyw a Pherthynas yn dangos yn glir bod y rheolau a osodir i aelodau'r grŵp yr un mor berthnasol i'r athrawon eu hunain / arweinydd grŵp ac unrhyw ymwelwyr ddaw atynt.

Cred yr ysgol fod ei Rhaglen Addysg Rhyw a Pherthynas yn cefnogi disgyblion drwy gyfnod eu datblygiad corfforol, emosiynol, moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau cyfrifol deallus ynghylch eu bywydau. Mae'n helpu disgyblion i feithrin hyder i siarad, gwrandao a meddwl am ryw a pherthynas. Pennir rheolau sylfaenol gyda'r disgyblion ar ddechrau pob uned o wersi a chyflwynir technegau ymbellhau a dulliau dysgu trwy drafod yn bennaf ond ceir cyfleoedd hefyd i chwarae rôl, astudio astudiaethau achos, defnyddio erthyglau papur newydd, gwyllo DVD a chymryd rhan mewn gweithgareddau o'r adnodd SENSE. Nid rôl yr athrawon yw rhoi cyngor ar iechyd rhywiol ond yn hytrach addysgu'r disgyblion am sut i gael cyngor. Mae'r holl raglen yn atgyfnerthu a chefnogi rôl rhieni / gwarcheidwaid / gofalwyr.

Caiff unrhyw adnoddau newydd eu hadolygu'n ofalus gan y Cydlynnydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol, staff addysgu RhaPh cyn eu defnyddio gyda'r disgyblion.

Dynodir anghenion hyfforddiant drwy gyfrwng yr adolygiadau datblygiad staff a'r adolygiadau Rheoli Perfformiad blynyddol. Manteisir ar y cyfarfodydd bugeiliol ar gyfer diweddarau hyfforddiant a rhannu arfer dda.

MATERION SENSITIF

Bydd y staff yn ymdrechu i ddiwallu anghenion pob plentyn ac i ddelio'n ddoeth gyda materion o natur sensitif.